# Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

# Adroddiad Blynyddol 2023



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Rhagair i'r Adroddiad Blynyddol | 2 |
| Sylwadau gan yr Ysgrifennydd | 3 |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Dyddiadur Cyfarfodydd | 5 |
| Siaradwyr Gwadd | 5 |
| Monitro a Chraffu | 6 |
| Y Prif Faterion a Ystyriwyd gan y Fforwm Mynediad | 7 |
| Lleol | 15 |
| Cynllun Gwaith Arfaethedig ar gyfer 2024 | 17 |
| Atodiadau | |

**Rhagair i'r Adroddiad Blynyddol**

Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn galonogol i'r Fforwm Mynediad Lleol, gyda gwell cyfathrebu rhwng y Fforwm a'r awdurdod a nifer o gyfarfodydd cadarnhaol wedi'u cynnal.

Roedd y Fforwm yn cynnwys 12 aelod trwy gydol 2023, i gyd â'u diddordebau a'u meysydd arbenigedd amrywiol yn ymwneud â hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Mae rhestr o aelodau'r Fforwm yn ystod y flwyddyn, ynghyd â manylion ynghylch pwy oedd yn bresennol ym mha gyfarfod, wedi'i chynnwys yn yr atodiadau (1 a 2).

Derbyniodd y Fforwm gyflwyniadau gan sawl sefydliad drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys un gan Ramblers Cymru am brosiect arolwg gwirfoddolwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Prosiect yw hwn lle bydd gwirfoddolwyr yn arolygu rhan sylweddol o'r rhwydwaith hawliau tramwy yn y Sir ac mae'r Fforwm yn awyddus i'w weld yn datblygu y flwyddyn nesaf.

Bu'r Fforwm yn ystyried 32 o wahanol bynciau yn ystod 2023 ar amrywiaeth eang o faterion, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn dangos bod y Fforwm wedi bod yn rhan o edrych ar nifer fawr o eitemau, eu trafod a chynghori arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod 2023 bu'r Fforwm yn monitro gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a ddarperir gan Dîm Mynediad i Gefn Gwlad Sir Gaerfyrddin. Roedd y duedd gyffredinol trwy gydol 2023 i raddau helaeth heb newid o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gan ddangos cynnydd cyson mewn problemau a gofnodwyd yn ymwneud â materion cyfreithiol yn ogystal â chynnal a chadw. Mae'r Fforwm yn parhau i wylio'r niferoedd hyn gyda diddordeb ac mae'n ymwybodol y gallai'r rhain gynyddu ymhellach unwaith y bydd yr arolwg rhwydwaith wedi'i gwblhau yn 2024. Mae'r Fforwm yn deall y bydd hyn yn rhoi set ddata fwy realistig ar gyfer cyflwr gwirioneddol y rhwydwaith hawliau tramwy yn y sir, ac yn galluogi'r awdurdod i ddatblygu ffordd strategol o wella'r rhwydwaith yn y dyfodol.

Bydd 2024 yn flwyddyn ddiddorol arall i'r Fforwm wrth i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy barhau i gael ei fonitro, y diddordeb parhaus ym mhrosiect Llwybr Dyffryn Tywi, gweithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu strategaeth farchogaeth ar gyfer y sir, canlyniadau'r arolwg rhwydwaith i'w trafod a thrafodaethau parhaus gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth ar faterion strategol a pholisi sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad.

2024 fydd blwyddyn olaf y Fforwm Mynediad Lleol presennol gan y bydd y tymor o dair blynedd yn dod i ben ym mis Rhagfyr. Yna bydd angen ethol fforwm newydd ar gyfer 2025.

Carwn ddiolch i Caroline Ferguson, Jason Lawday a holl aelodau'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad am eu hamser ac am eu cyngor i'r fforwm fel ysgrifennydd / ymgynghorwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r fforwm am eu hamser a'u harbenigedd i'r Fforwm.

**Mark Hadley**
**Cadeirydd - Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**
**Sylwadau gan yr Ysgrifennydd**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cwblhau ail flwyddyn tymor y Fforwm Mynediad Lleol presennol.

Yn ystod 2023 ni wnaeth unrhyw aelodau o'r fforwm ymddeol, ond penodwyd ysgrifennydd dros dro ym mis Chwefror 2023 i gyflenwi dros gyfnod mamolaeth am weddill y flwyddyn galendr.

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd wyneb yn wyneb, gyda rhai yn ymuno o bell. Mae'r dull hybrid hwn, a etifeddwyd o Reoliadau Coronafirws Fforwm Mynediad Lleol 2020, wedi gweithio'n dda ac wedi bod o fudd i'r fforwm gyda chyfraniadau ychwanegol gan siaradwyr na allai fod wedi bod yn bresennol fel arall.

Mae Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yn parhau i gyfrannu at ddatblygu a gwella Mynediad i Gefn Gwlad ledled y Sir, gan ddarparu sylwadau a chyngor ar faterion sy'n ymwneud â gweithdrefn, polisi, cydymffurfiaeth a chyllid.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ddiolchgar iawn am y profiad, y wybodaeth a'r brwdfrydedd y mae'r aelodau yn eu cyfrannu i'r fforwm ac yn diolch iddynt am eu hymrwymiad.

Mae'r fforwm hefyd wedi elwa o gefnogaeth arsylwyr, ymgynghorwyr a siaradwyr, sydd wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm trwy gydol 2023 ac sydd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i eitemau ar yr agenda.

Mae'r wybodaeth a'r sylwadau gan sefydliadau ac unigolion sydd wedi cefnogi'r Fforwm Mynediad Lleol wedi helpu'r fforwm i gyflawni ei swyddogaeth ymgynghorol. Mae'r awdurdod yn ddiolchgar i'r cyfranwyr hyn ac yn gobeithio y bydd y gefnogaeth werthfawr hon yn parhau.

**Caroline Ferguson**
**Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Cyflwyniad**

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin gyntaf gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yr awdurdod penodi, ym mis Medi 2002 (gweler atodiad 3).

Mae'r fforwm yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan fod Fforwm Mynediad Lleol y Parc yn gyfrifol am yr ardal honno (gweler Atodiad 4)

Mae'r adroddiad hwn, sy'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn cwmpasu'r gwaith a wnaed gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin rhwng Ionawr 2023 tan ddiwedd Rhagfyr 2023, ail flwyddyn ei dymor o 3 blynedd.

Cafodd swydd ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2023 ei chyflawni dros dro gan ysgrifennydd dros dro a ysgwyddodd y dyletswyddau o fis Chwefror 2023 tan fis Rhagfyr 2023.

Bydd amryw bwrpasau i'r adroddiad blynyddol hwn, sef cyflwyno:

a) Crynodeb o waith y flwyddyn
b) Cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod - bydd y Fforwm a'r awdurdod penodi yn cytuno ar hyn, yn unol â rheoliad 16(2)(b).
   Fodd bynnag, efallai y bydd yn destun newid yn unol â blaenoriaethau a phwysau sy'n newid trwy gydol y flwyddyn.
c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen a bydd ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

**Y Sefydliadau a gynrychiolir ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

Cyngor Sir Caerfyrddin
Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Drafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Y Cerddwyr
Cycling UK
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
Trail Rider's Fellowship

**Buddiannau a gynrychiolir ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

Grwpiau Cerdded Lleol
Mynediad Anabledd/Symudedd Cyfyngedig
Twristiaeth
Y Sector Gwirfoddol
Tirfeddianwyr Preifat (tyddynwyr)
Beicio Mynydd
Cadwraeth
Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol
Mynediad i Gerbydau Hamdden

Llesiant

**Dyddiadur Cyfarfodydd**

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn bersonol, ac roedd unrhyw bresenoldeb o bell yn cael ei ddarparu trwy drefniant ymlaen llaw gyda'r ysgrifennydd. Cynhelir cyfarfodydd mewn dau leoliad gwahanol yn y Sir bob yn ail.

Trwy gydol 2023 cafodd y diwrnod a glustnodwyd ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm ei amrywio. Penderfynwyd ar hyn i wneud cyfarfodydd yn fwy hygyrch i fwy o bobl/rhanddeiliaid ar ôl i adborth awgrymu bod yr amserlen flaenorol a oedd yn cadw at ddiwrnodau penodol yn cyfyngu ar allu pobl i fynychu cyfarfodydd.

1) 16 Ionawr 2023, 6pm – Canolfan Tywi, Llandeilo

2) 16 Mawrth 2023, 6pm – Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan

3) 5 Mehefin 2023, 6pm – Canolfan Tywi, Llandeilo

4) 18 Medi 2023, 6pm – Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan

5) 11 Rhagfyr 2023, 6pm – Canolfan Tywi, Llandeilo

**Siaradwyr Gwadd**

Estynnodd yr aelodau groeso i'r siaradwyr canlynol, a oedd i siarad ar y pynciau a nodir isod:

1) Jenny Bringloe, Cynllun Gofodol Cymru – Cyflwyniad ar yr Adolygiad Canol Tymor parhaus o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

2) Hannah Wilcox Brooke ac Angela Charlton, Ramblers Cymru - Llwybrau at Lesiant a Phrosiect Arolwg Gwirfoddolwyr Sir Gaerfyrddin

3) Nigel Nicholas, Swyddog Llwybr Arfordir Cymru – rheoli Llwybr Arfordir Cymru; cyfleoedd, heriau a gweledigaeth i'r dyfodol.

4) Amy Goodwin a Rebecca Brough, Ramblers Cymru – cyflwyno'r prosiect Arolwg Gwirfoddolwyr a dyheadau ar gyfer gweithlu gwirfoddol yn y dyfodol.

**Monitro a Chraffu**

Mae busnes rheolaidd y Fforwm yn ystod 2023 wedi cynnwys diweddariadau gan dîm Mynediad i Gefn Gwlad y Cyngor, tîm Hamdden Awyr Agored y Cyngor, Priffyrdd y Cyngor a Rheolwr Gweithrediadau CNC ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â mynediad. Mae aelodau'n rhoi adborth ac yn gofyn ystod o gwestiynau. Yn y modd hwn, caiff cynnydd, llwythi gwaith a blaenoriaethau eu monitro gan aelodau.

Mae'r Fforwm yn darparu goruchwyliaeth strategol annibynnol dros waith mynediad cyhoeddus y cyngor. Er enghraifft, cynllunio a pharatoi prosiectau blynyddol i wella hawliau tramwy cyhoeddus, cyhoeddi adroddiadau chwarterol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Gorchmynion Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Ceisiadau Cynllunio (gyda goblygiadau mynediad) a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

Mae cynnwys a chamau gweithredu o gyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd (grŵp a ail-ffurfiwyd ym mis Chwefror 2023) hefyd yn cael eu bwydo'n ôl i'r Fforwm er gwybodaeth ac i arsylwi ar lefel strategol.

Caiff is-grwpiau i'r Fforwm eu creu lle mae angen trafodaeth fanylach ar bynciau penodol o fewn cylch gorchwyl y Fforwm.

Gweithredodd dau o is-grwpiau'r Fforwm yn ystod 2023:

1) Is-grŵp Adolygiad Canol Tymor y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ar waith ers 2022) – yn cynnwys aelodau'r Fforwm, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad y Cyngor ac Ymgynghorydd Cynllun Gofodol Cymru. Cymerodd yr is-grŵp ran mewn gweithdy adolygu cychwynnol, gan werthuso'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r is-grŵp wedi adrodd yn ôl i'r prif Fforwm ac wedi cadw gorchwyl gwylio o gynnydd adolygu.

2) Is-grŵp Marchnata a Hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus - yn cynnwys aelodau'r Fforwm, Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad y Cyngor a Swyddog Datblygu Twristiaeth y Cyngor. Mae'r is-grŵp yn edrych ar y gwaith presennol o hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus a lle gellid ei newid, ei wella neu ei ddiweddaru. Mae'r is-grŵp wedi adrodd yn ôl i'r prif Fforwm.

**Y Prif Faterion a ystyriwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol**

1. Pwnc a drafodwyd: **Aelodau Newydd / Ymddiswyddiadau**
   Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023

Crynodeb: Darllenwyd ymddiswyddiadau ysgrifenedig gan Paul Barrett, Geoffrey Williams ac Andy Pughsley yng nghyfarfod mis Ionawr; daeth yr ymddiswyddiadau hyn yn weithredol ym mis Rhagfyr 2022.

2. Pwnc a drafodwyd: **Adolygiad Canol Tymor**
   Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Hysbyswyd yng nghyfarfod ym mis Ionawr bod adolygiad canol tymor wedi'i ail-neilltuo i ymgynghorydd Cynllun Gofodol Cymru newydd a fyddai'n dilyn ymlaen o'r gwaith a wnaed gan yr ymgynghorydd blaenorol trwy 2022. Yr ymgynghorydd newydd i asesu'r gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau cyn cynhyrchu drafft terfynol a fyddai'n cael ei gylchredeg i'r Fforwm er mwyn derbyn sylwadau. Cyflwyniad o bell gan yr ymgynghorydd ym mis Mawrth i roi'r wybodaeth ddiweddaf i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed ac amlinellu sut y byddai'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno; eglurwyd cwmpas yr adolygiad hefyd.
Codwyd y pwnc o dan 'Camau Gweithredu sy'n Codi' yng nghyfarfodydd Mehefin a Medi, dim diweddariadau pellach ar gael, dim dogfen adolygu derfynol wedi'i chylchredeg erbyn diwedd y flwyddyn.

3. Pwnc a drafodwyd: **Adroddiadau ar Faterion Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
   Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023.

Crynodeb: Lluniwyd adroddiadau ar nifer y materion cyfreithiol a chynnal a chadw sydd heb eu cyflawni cyn pob un o gyfarfodydd y Fforwm, ac eithrio mis Mawrth lle lluniwyd yr adroddiad ar ôl y cyfarfod.
Dadansoddwyd data'r materion, a thrafodwyd canfyddiadau mewn 4 o'r 5 cyfarfod yn 2023, gydag adroddiadau ar faterion yn eitem reolaidd ar yr agenda.
Roedd y duedd gyffredinol drwy 2023 i raddau helaeth heb newid o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gan ddangos cynnydd cyson mewn problemau a gofnodwyd.
Fel yn achos y blynyddoedd blaenorol, roedd y rhesymau posibl dros y niferoedd cynyddol yn niferus ac amrywiol, gan gynnwys: cynnydd nodedig yn y galw ar y rhwydwaith, (a ysgogwyd yn fwyaf sylweddol gan bandemig Covid 2020) a dulliau adrodd mwy hygyrch yn sgil cyflwyno CAMSWeb.
Ym mis Mehefin, trafododd yr aelodau'r modd y dengys y ffigurau nad oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol yn wyneb galw cynyddol.
Yng nghyfarfod mis Ionawr, tynnodd yr ysgrifennydd sylw at yr effaith y byddai'r arolwg o'r rhwydwaith 100% arfaethedig yn ei chael ar y data yn yr Adroddiadau Materion, gan leihau defnyddioldeb yr adroddiadau yn eu ffurf bresennol. Cynghorodd y byddai'r adroddiadau materion yn cael eu newid yn fuan (dim dyddiad pendant), i ddarparu data mwy crwn sy'n dangos darlun ehangach o dueddiadau gwasanaeth. Ym mis Mehefin trafodwyd hefyd ddefnyddioldeb y data materion yn y dyfodol unwaith y bydd yr arolwg o'r rhwydwaith arfaethedig wedi'i gwblhau.

4. Pwnc a drafodwyd: **Ymgynghoriad ar gau croesfannau'r A48**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Cydnabuwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Fforwm Mynediad Lleol a anfonwyd yn 2022 ond yn aros am ateb pellach gan yr ymgynghorwyr (Atkins). Mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru cyn i Atkins gyhoeddi ymateb ffurfiol, Cyngor Sir Caerfyrddin i geisio ateb pellach gan Atkins.
Codwyd y pwnc o dan 'Camau Gweithredu sy'n Codi' trwy gydol y flwyddyn, hyd at a chan gynnwys cyfarfod mis Medi, nid oes diweddariadau pellach ar gael.

5. Pwnc a drafodwyd: **Prosiectau Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Darllenwyd diweddariadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Rheolwr Hamdden a Mynediad Cefn Gwlad ym mhob cyfarfod ac eithrio mis Mawrth 2023 pryd nad oedd diweddariad ar gael.
Bu oedi i gyflawni rhai prosiectau oherwydd tywydd garw, ond dan yr amserlenni gwaith diwygiedig cafodd prosiectau eu cwblhau o fewn y flwyddyn (blynyddoedd) ariannol berthnasol.
Yng nghyfarfod mis Ionawr, gwahoddwyd aelodau'r Fforwm i gyflwyno syniadau'r prosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cafodd y rhain eu hanfon at Gyngor Sir Caerfyrddin trwy e-bost, ac mae'r aelodau'n aros am adborth.
Cytunwyd y bydd y deg cynnig prosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus a enillodd y sgôr uchaf ar y rhaglen waith Mynediad i Gefn Gwlad yn cael eu cyflwyno i'r fforwm er mwyn rhoi sylwadau arnynt, ac mae'r aelodau'n aros am y cyfle cyntaf i ystyried y cynigion.
Mae'r aelodau'n aros am fanylion am sut y byddai cyllid prosiect a ddarperir gan yr hen grŵp Marchogion Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire Riders) yn cael ei ddefnyddio.
Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, darllenodd ysgrifennydd y Fforwm ddadansoddiad ysgrifenedig o brosiectau cynnal a chadw a gwella a gyflawnwyd trwy flwyddyn ariannol 2023-24 hyd at fis Rhagfyr, a ddarparwyd gan Reolwr Hamdden a Mynediad Cefn Gwlad y Cyngor. Gwnaed nodyn o'r ymholiadau a'r awgrymiadau a godwyd, i'w dwyn yn ôl at y Rheolwr Hamdden a Mynediad Cefn Gwlad.
Barn gyffredinol yr aelodau oedd y byddai'n ddefnyddiol cael aelod uwch o'r tîm Hamdden a Mynediad Cefn Gwlad yn bresennol er mwyn gallu trafod y modd y cyflawnir y prosiect yn ystod cyfarfodydd.

6. Pwnc a drafodwyd: **Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023

Crynodeb: Bu aelod o'r fforwm yn bresennol yn y cyfarfod ar ran y Cadeirydd. Pwyntiau a drafodwyd sydd o ddiddordeb i Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin: pwysigrwydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Fforwm, pryderon ynghylch cyllideb hawliau tramwy cyhoeddus ledled Cymru, adolygiad o Lwybr Arfordir Cymru.
Trafodaeth yr aelodau: ystyrir bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bwysig yn Sir Gaerfyrddin i egluro rôl a phwrpas y Fforwm Mynediad Lleol. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen unwaith y penodir Pennaeth Gwasanaeth newydd Cyngor Sir Caerfyrddin. Gwerthfawrogwyd y pwysau eithafol sydd ar y gyllideb hawliau tramwy cyhoeddus mewn mannau eraill yng Nghymru. Bydd Swyddog Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn cael ei wahodd i gyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.

7. Pwnc a drafodwyd: **Cynigion Marchogaeth Ceffylau ym Mharciau Cyngor Sir Caerfyrddin**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Manylion y cynigion i adolygu'r trefniadau mynediad caniataol i farchogion ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr a ddarperir gan y Rheolwr Hamdden Awyr Agored. Dull tebyg i ddatblygiad blaenorol mynediad caniataol yn Llyn Llech Owain, wedi'i gynllunio'n ofalus i osgoi gwrthdaro rhwng defnyddwyr a difrod i ardaloedd cadwraeth.
Wedi tynnu sylw'r Rheolwr Hamdden Awyr Agored at y ffaith bod angen ail-wynebu llwybrau rhannu defnydd.
Cafwyd ymweliad safle cadarnhaol â Pharc Coetir y Mynydd Mawr gyda chynrychiolydd Hamdden Awyr Agored a defnyddwyr mynediad i farchogion yn adrodd yn ôl i'r Fforwm. Codwyd arwyddion wedi hynny i reoli mynediad i farchogion i ardaloedd o'r safle sy'n amgylcheddol sensitif.
Tynnwyd sylw yng nghyfarfod mis Medi at rywfaint o adborth negyddol tuag at farchogion ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr. Mae gan ddefnyddwyr ddull cyfryngau cymdeithasol ar waith i nodi defnyddwyr sy'n dal i gam-drin y trefniadau mynediad caniataol, gyda'r bwriad o'u haddysgu.
Trafodwyd mynediad i draeth Cefn Sidan drwy'r Gilffordd ar gyrion Parc Gwledig Pen-bre hefyd, ni chafodd y mater ei ddatrys yn 2023. Gofynnwyd am ystyried ymestyn mynediad i'r traeth i yrwyr cerbydau tra bod y Rheolwr Hamdden Awyr Agored yn bresennol yn y Fforwm Mynediad Lleol, mae'r aelodau'n aros am yr ymateb terfynol.

8. Pwnc a drafodwyd: **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus ym Meysydd Parcio Cyngor Sir Caerfyrddin**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023

Crynodeb: Bu'r Fforwm yn trafod adroddiadau o ddigwyddiadau'n ymwneud â chŵn ymosodol ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr a'r syniad o Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer y safle. Tynnodd y Rheolwr Hamdden Awyr Agored sylw at y diffyg staff ar safle Parc Coetir y Mynydd Mawr i orfodi Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'r tîm Hamdden Awyr Agored a'r Heddlu (mater troseddol Cŵn Peryglus). Mae angen i'r heddlu dderbyn adroddiadau i adeiladu darlun o'r mater a chynllunio mesurau gorfodi.

9. Pwnc a drafodwyd: **Ramblers Cymru - Prosiect Llwybrau at Lesiant ac Arolwg Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Cyflwynodd cynrychiolwyr y Cerddwyr wybodaeth i'r Fforwm Mynediad Lleol ar brosiect Llwybrau at Lesiant a gwblhawyd yn ddiweddar yn y Sir, a thynnwyd sylw at fanteision gweithio gyda gwirfoddolwyr wedi'u trefnu.
Cyflwynodd swyddogion y Cerddwyr hefyd y bwriad o gyflawni'r Prosiect Arolwg Rhwydwaith Hawliau Tramwy gyda chymorth y Cerddwyr. Cafwyd sesiwn Holi ac Ateb trylwyr ar yr arolwg gan gwmpasu pynciau megis nodau, cwmpas, safonau ac ymgysylltu.
Penododd y Cerddwyr swyddog prosiect gwirfoddol a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Cafodd y rôl ei hamlinellu a darparwyd cynlluniau manylach ar gyfer cyflawni'r arolwg o'r rhwydwaith.

Y bwriad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mhob un o gyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol nes bod y prosiect wedi'i gwblhau.

10. Pwnc a drafodwyd: **Strategaeth Farchogaeth**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023.

Crynodeb: Diweddariad o statws y Strategaeth ddrafft a ddarparwyd yn ystod cyfarfod cyntaf 2023. Cynghorodd yr aelodau y byddai'r swyddog cyfrifol, sydd ar absenoldeb mamolaeth o fis Chwefror 2023, yn parhau â'r strategaeth pan fydd hi'n dychwelyd ym mis Ionawr 2024.
Roedd yr aelodau yn anhapus ynghylch pa mor hir y mae'r strategaeth yn ei gymryd, ac roedd aelodau'r fforwm marchogaeth yn anhapus gyda'r oedi sydd wedi bod; byddent yn hoffi gweld y data a gafwyd o'r arolwg defnyddwyr.
Gofynnwyd am ddiweddariad ar y strategaeth yng nghyfarfod mis Rhagfyr gan fod swyddog y cyfrifol ar fin dychwelyd.

11. Pwnc a drafodwyd: **Is-grŵp Marchnata Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Mae adroddiadau rheolaidd yn ôl i'r prif Fforwm gan aelodau'r is-grŵp yn amlinellu canlyniadau cadarnhaol o'r grŵp.
Gan weithio'n agos gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau, mae'r is-grŵp wedi helpu i hyrwyddo Teithiau Cerdded y Sir a Llwybrau Cenedlaethol yn llwyddiannus.
Caiff taflen gerdded newydd ei datblygu sy'n cynnwys map o'r holl lwybrau a hyrwyddir.

12. Pwnc a drafodwyd: **Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth/Ymgysylltu â'r Fforwm Mynediad Lleol**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Cododd aelodau'r fforwm bryderon ynglŷn â'r ffaith nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgysylltu'n ddigonol â'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r aelodau'n teimlo nad ydyn nhw'n cael gwrandawiad ac mae'r ymateb i ohebiaeth y Fforwm wedi bod yn gyson araf.
Darparwyd adborth ym mis Ionawr 2023 o gyfarfod 2022 rhwng y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol a'r Dirprwy Gadeirydd. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol i ymarfer ymgysylltu'r Fforwm â'r Cyngor gan gynnwys egluro rolau, mwy o ymgynghori â'r Fforwm a chyfarfodydd rheolaidd â'r Pennaeth Gwasanaeth.
Mynegwyd pryderon pellach ynghylch ymgysylltu ym mis Mehefin 2023 i'r Aelod Cabinet, mae'r fforwm yn aros am ganlyniad y cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth newydd cyn trafod y camau nesaf.

13. Pwnc a drafodwyd: **Beicio ar Lwybrau Troed/Gorchmynion Addasu Llwybrau Beicio**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023.

Crynodeb: Gofynnodd aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt presennol Cyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â beicio ar lwybrau troed yn dilyn cyngor y Cwnsler ar y pwnc.
Cyflwynwyd cais am ryddid gwybodaeth gan Cycling UK i gael rhagor o fanylion am gyngor, dim byd wedi'i adrodd yn ôl i'r Fforwm hyd yn hyn.
Cynigiwyd Gorchmynion Addasu Llwybrau Beicio ar rai llwybrau troed cyhoeddus sy'n cael eu defnyddio gan feicwyr. Caiff Prosiect Gorchmynion Addasu ei yrru ymlaen gan ymgynghorwyr Cynllun Gofodol

Cymru.  Darparwyd diweddariad ar y prosiect yng nghyfarfod mis Rhagfyr; cododd yr aelodau rai cwestiynau ac aeth ysgrifennydd dros dro'r Fforwm â'r rhain yn ôl i Gynllun Gofodol Cymru i gael ymateb.

14. Pwnc a drafodwyd: **Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023

Crynodeb: Roedd cais agored a wnaed gan y Fforwm i Gyngor Sir Caerfyrddin yn 2022 am restr gynhwysfawr o Orchmynion Rheoleiddio Traffig cyfredol, byw, parhaol ar draws y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a ffyrdd diddosbarth yn parhau i gael ei drafod.
Dim ond Gorchmynion Rheoleiddio Traffig parhaol sydd ar waith ar Gilffyrdd a ffyrdd diddosbarth yn Sir Gaerfyrddin, nid oes unrhyw Orchmynion wedi'u cymhwyso i hawliau tramwy cyhoeddus statws is.
Felly, mae angen cael gwybodaeth gan yr adran Priffyrdd.
Mae'r aelodau yn aros am wybodaeth am Orchmynion Rheoleiddio Traffig sy'n debygol o gael ei oedi ymhellach oherwydd y pwysau o gyflwyno Gorchmynion 20mya ar draws y rhwydwaith ffyrdd.

15. Pwnc a drafodwyd: **Taith Archifau'r Fforwm Mynediad Lleol**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023

Crynodeb: Mae gan aelodau'r Fforwm ddiddordeb mewn ymweld ag Archifau newydd Sir Gaerfyrddin a mynd ar y daith a gynigir gan staff yno. Mae'r daith eto i'w threfnu; mae dod o hyd i ddyddiad rhydd i'r aelodau wedi bod yn anodd.

16. Pwnc a drafodwyd: **Llwybr Dyffryn Tywi**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 5 Mehefin 2023, 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Trafododd yr Aelodau ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 a buont yn cadw gorchwyl gwylio ar y dull Prynu Gorfodol a fabwysiedir i sicrhau tir ar gyfer y llwybr, a arweiniodd at Ymchwiliad Cyhoeddus ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir canlyniad yn gynnar yn 2024. Trafododd yr aelodau hefyd y model cyflawni ar gyfer adeiladu'r llwybr a sut y gallai hynny lywio prosiectau tebyg i'w cyflawni yn y dyfodol.

17. Pwnc a drafodwyd: **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Caerfyrddin**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Mawrth 2023

Crynodeb: Bu'r Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod CDLl yn gynnar yn y flwyddyn, cododd aelodau ymholiadau mewn perthynas â Dynodi Tirwedd a chynnwys Mynediad Cyhoeddus fel ystyriaeth yn y CDLl. Cododd Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol ymholiadau gyda Swyddogion perthnasol, mae'r aelodau yn aros am ddiweddariad.

18. Pwnc a drafodwyd: **Gosod Peilonau Arfaethedig, Dyffryn Tywi**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Mawrth 2023

Crynodeb: Trafodaeth gyffredinol ynghylch effaith bosibl peilonau ar hamdden awyr agored, mynediad a thwristiaeth. Cytunodd yr Aelodau i gadw gorchwyl gwylio ar y cynllun tra bod ysgrifennydd y Fforwm yn sicrhau bod Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei gofnodi fel ymgynghorwyr.

19. Pwnc a drafodwyd: **Cynigion Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Cilffyrdd Cydweli**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Mawrth 2023

Crynodeb: Cynhaliodd y Fforwm ymweliad safle ym mis Mawrth 2023 i archwilio'r Cilffyrdd sy'n destun yr adroddiad Rheoleiddio Traffig drafft. Cafodd sylwadau ac argymhellion eu hadrodd yn ôl i swyddog ardal, cyngor allweddol gan y Fforwm oedd ymchwil ac ymgysylltu pellach cyn cwblhau'r penderfyniad Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

20. Pwnc a drafodwyd: **Cynigion Teithio Llesol Caerfyrddin**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Mawrth 2023

Crynodeb: Bu aelod o'r Fforwm yn bresennol mewn cyflwyniad ar-lein mewn perthynas â chynigion Teithio Llesol cyfredol. Codwyd pryder ynglŷn â diffyg ymgysylltu â'r Fforwm. Roedd teimlad hefyd fod angen ystyriaeth bellach ar rai o fanylion y prosiect - storio beiciau, pwyntiau gwefru, darparu Beiciau Cargo. Codwyd cwestiynau yn ystod y drafodaeth mewn perthynas â seilwaith beicio presennol nad yw'n rhan o gynigion.

21. Pwnc a drafodwyd: **Creu Coetir Brownhill**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023

Crynodeb: Rhoddodd Phillip Morgan, Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC ac ymgynghorydd i'r Fforwm Mynediad Lleol, y wybodaeth ddiweddaraf am safle Brownhill a chadarnhaodd y byddai yna ymgynghori'n digwydd gyda'r Fforwm ynghylch cynllun arfaethedig y safle unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Mae ehangu'r Goedwig Genedlaethol yn un o fuddion eraill y prosiect yn dilyn diddordeb gan dirfeddiannwr preifat cyfagos. Bu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol ar ymweliad safle gyda CNC i ddeall y cynigion mynediad yn well.

22. Pwnc a drafodwyd: **Llwybrau Cerdded Brechfa**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023

Crynodeb: Dywedodd Phillip Morgan wrth yr aelodau fod y llwybr cerdded 12 milltir sy'n cael ei ddatblygu gan CNC o amgylch coedwig Gorllewin Brechfa bron â chael ei gwblhau. Mae cynaeafu coedwigoedd wedi achosi peth oedi, bydd yna lansiad swyddogol pan fydd wedi'i gwblhau a bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael gwybod am y digwyddiad lansio. Gofynnwyd am ddiweddariad gan CNC ym mis Mehefin, mae'r aelodau yn aros am ragor o wybodaeth.

23. Pwnc a drafodwyd: **Gweithdrefnau Gwaith Coedwigaeth CNC**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Rhoddodd Phil Morgan drosolwg o weithdrefnau cynaeafu coed CNC, gan egluro rhwymedigaethau ymgynghori, cyfrifoldebau adfer a dulliau pragmatig o reoli mynediad mewn ardaloedd anghysbell. Roedd gan yr aelodau sawl barn ar y gweithdrefnau a amlinellwyd. Y prif gyngor oedd y

dylai CNC ddilyn yr holl weithdrefnau cyfreithiol cywir i ddiogelu mynediad a'r cyhoedd yn ystod y gwaith cynaeafu ac y gellid gwella'r modd y rhoddir gwybod am fynediad sydd ar gau er mwyn cynaeafu.
Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, adroddodd ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu perthynas waith well gyda CNC mewn perthynas â chynaeafu.

24. Pwnc a drafodwyd: **Diwygio Mynediad (Cymru)**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023, 16 Mawrth 2023, 5 Mehefin 2023, 18 Medi 2023

Crynodeb: Cyhoeddwyd nodyn briffio Diwygio Mynediad i Gadeirydd ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol yn gynnar yn y flwyddyn, dim newid na chynnydd sylweddol wedi'i wneud. Mae'r diwygio gan Lywodraeth Cymru wedi gohirio cynnydd wrth gyflawni unrhyw newidiadau arfaethedig, ac nid yw'r Fforwm wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â newidiadau arfaethedig. Mae'r pwnc Diwygio Mynediad i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Cenedlaethol.

25. Pwnc a drafodwyd: **Llwybr Arfordir Cymru**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Rhoddodd Nigel Nicholas (Swyddog Llwybr Arfordir Cymru) grynodeb o hanes Llwybr Arfordir Cymru i'r Fforwm, yr heriau y mae'n eu cyflwyno, y cyllid presennol, sut caiff ei reoli a'r cynlluniau gwella presennol. Derbyniodd Nigel gwestiynau gan aelodau mewn perthynas â mynediad i farchogion ar hyd Llwybr yr Arfordir, y mater yn ymwneud â darnau ffyrdd a dargyfeirio llwybrau posibl.
Yn ddiweddarach yn y flwyddyn hysbyswyd aelodau bod yr awdur awyr agored Paddy Dillon yn ymchwilio i lwybrau cylchol byr sy'n cysylltu â Llwybr yr Arfordir, gyda sawl arolwg yn cael eu cynnal i benderfynu ar ddichonoldeb.

26. Pwnc a drafodwyd: **Defnydd CNC o Gwmni Diogelwch Preifat**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Medi 2023, 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Cyflwynwyd y pwnc i'r grŵp gan Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol, a roddodd y cefndir i fater newydd. Mae CNC yn defnyddio contractwyr preifat i ddelio â throseddau sifil ar ystâd goedwigaeth Llywodraeth Cymru, ac adroddwyd am achos o atal mynediad cyfreithlon; cafodd y mater ei ddatrys gan CNC.
Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, rhoddodd Phil Morgan (CNC) ragor o fanylion ynglŷn â pham y cafodd cwmni diogelwch preifat ei benodi. Yn sgil sawl achos o weithgarwch anghyfreithlon a thresmasu, cododd yr angen am wasanaeth llanw y tu allan i oriau mewn mannau problemus ar draws yr ystâd. Defnyddir pwerau gorfodi'r Ddeddf Coedwigaeth.
27. Pwnc a drafodwyd: **Strategaeth Hamdden Awyr Agored CNC**
Dyddiad(au) Trafod: 18 Medi 2023

Crynodeb: Cafodd Strategaeth Hamdden Awyr Agored CNC ei chylchredeg i'r Fforwm. Nid oedd yn ymgynghoriad cyhoeddus, i randdeiliaid yn unig. Awgrymodd y Cadeirydd fod yr aelodau yn cyflwyno ymatebion unigol sy'n canolbwyntio ar eu buddiannau mynediad; nid oedd ymateb cydlynol unigol yn bosibl oherwydd yr ystod eang o bynciau.

Teimlai'r aelodau y dylai'r ymgynghoriad fod ar gael yn ehangach. Gwnaed ymholiadau ynghylch pwy yw'r rhanddeiliaid; mae'r aelodau'n aros am ragor o fanylion.

28. Pwnc a drafodwyd: **Fforwm Mynediad Cenedlaethol**
Dyddiad(au) Trafod: 16 Ionawr 2023

Crynodeb: Rhoddodd yr Ysgrifennydd grynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd yng nghyfarfodydd diweddar y Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Roedd Fforymau Mynediad Lleol ledled Cymru yn cael anawsterau tebyg, yn enwedig o ran recriwtio. Bydd yr Ysgrifennydd yn parhau i fynd i gyfarfodydd i'r graddau sy'n bosibl.

29. Pwnc a drafodwyd: **Taflenni Gwybodaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Mae'r Daflen Wybodaeth i Dirfeddianwyr Newydd yn fyw ar y wefan, nid yw'r Polisi Codi Tâl am Gelfi Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar-lein eto, cynghorodd yr aelodau y dylid eu cyhoeddi ar y tudalennau gwe Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

30. Pwnc a drafodwyd: **Staffio Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mehefin 2023

Crynodeb: Cymeradwywyd rhai swyddi wedi'u hailbwrpasu o fewn y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn 2023, a fydd yn gwasanaethu anghenion y tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn well yn y dyfodol. Roedd yr aelodau yn gytûn fod hyn yn newyddion da iawn.

31. Pwnc a drafodwyd: **Prosiect Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cilmaenllwyd**
Dyddiad(au) Trafod: 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Rhoddodd ysgrifennydd y Fforwm y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect parhaus hwn yn y Sir. Cytunodd yr aelodau ei fod yn brosiect canmoladwy a allai gael ei ddefnyddio fel astudiaeth achos ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

32. Pwnc a drafodwyd: **Mudiad Gweithredu Amgylcheddol Lonydd Gwyrdd (GLEAM)**
Dyddiad(au) Trafod: 11 Rhagfyr 2023

Crynodeb: Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol y pwnc i'r fforwm, gan roi trosolwg o GLEAM. Rhannodd ysgrifennydd y Fforwm ddogfennau ymgynghori cysylltiedig. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol i gadw gorchwyl gwylio.

**Cynllun Gwaith Arfaethedig ar gyfer 2024**

Bydd rhaglen waith y Fforwm Mynediad Lleol yn y flwyddyn nesaf yn edrych yn fanwl ar y materion canlynol:

1) Gwaith Ymgysylltu'r Fforwm Mynediad Lleol – parhau â'r trafodaethau gyda'r Pennaeth Gwasanaeth ac Aelodau'r Cabinet i ysgogi gwell ymgysylltu gan y Cyngor Sir â'r Fforwm.
2) Adolygiad Canol Tymor o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - gwerthuso a rhoi sylwadau ar y ddogfen derfynol.
3) Strategaeth Farchogaeth - adolygu a rhoi sylwadau ar y strategaeth ddrafft a cheisio ei chwblhau erbyn Hydref 2024
4) Prosiect Arolwg Rhwydwaith Gwirfoddolwyr - gorchwyl gwylio, rhoi sylwadau/cymorth yn ôl yr angen
5) Cynigion Teithio Llesol - gorchwyl gwylio, darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
6) Gorchmynion Addasu Llwybrau Beicio – adolygu a rhoi sylwadau ar gynigion wrth i ddogfennau ymgynghori gael eu cyhoeddi. Rhoi cyngor ar y broses fel y gwelir yn angenrheidiol.
7) Is-grŵp Hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus – parhau i weithio gyda'r timau Mynediad i Gefn Gwlad a Marchnata i roi gwelliannau pellach ar waith i hyrwyddo a marchnata cyfleoedd mynediad i gefn gwlad.
8) Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru – gorchwyl gwylio, darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
9) Cynigion ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru – gorchwyl gwylio, rhoi cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
10) Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol Byw ar draws y Rhwydwaith Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus – ceisio manylion llawn ac adolygu llwybrau a fyddai'n cael eu cau.
11) Prosiect Cilffyrdd Cydweli gyda Chynigion Gorchmynion Rheoleiddio Traffig – ystyried unrhyw ymateb i gyngor sydd eisoes wedi'i gyflwyno. Parhau i roi cyngor ar gynigion hyd at gyflawni'r prosiect.
12) Cynigion Marchogaeth ym Mharciau Gwledig a Choetir Cyngor Sir Caerfyrddin - gorchwyl gwylio, rhoi cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
13) Llwybr Arfordir Cymru - gorchwyl gwylio mewn perthynas ag ymchwiliad cyfredol Paddy Dillon i lwybrau cylchol/cysylltiadau, rhoi cyngor yn ôl yr angen.
14) Prosiectau Gwella Hawliau Tramwy – monitro ac adolygu prosiectau a gynlluniwyd ar gyfer ac a gyflawnwyd trwy 2024.
15) Cyllid Grant Gwella Mynediad - adolygiad o'r defnydd.
16) Dyfarniad cyllid Grant Gwella Mynediad sydd ar ddod - adolygu'r defnydd arfaethedig
17) Cynllun Datblygu Lleol - adolygu a darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen.
18) Cyllid allanol ar gyfer gwaith hawliau tramwy – tynnu sylw at gyfleoedd a'u trafod.

19) Adroddiadau materion/perfformiad Hawliau Tramwy Cyhoeddus - adolygu, asesu a chynnig sylwadau parhaus.

20) Llwybr Dyffryn Tywi - gorchwyl gwylio ar yr hyn a gyflawnir yn 2024-25.

21) Peilonau Arfaethedig Dyffryn Tywi – gorchwyl gwylio.

22) Taith Archifau Sir Gaerfyrddin – y rheiny sydd â diddordeb i gymryd rhan, adrodd yn ôl i'r aelodau.

23) Materion Mynediad Parhaus CNC

- Llwybrau Cerdded Brechfa
- Creu Coedwig Brownhill
- Strategaeth Hamdden Awyr Agored

24) Cau Croesfannau'r A48 – gorchwyl gwylio, rhoi cyngor ffurfiol yn ôl yr angen

25) Rhwystrau i gael mynediad i gefn gwlad – beth sy'n atal rhai pobl/grwpiau rhag cael mynediad i gefn gwlad e.e. y rheiny sydd â phroblemau symudedd, pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd,

26) Gyda thymor presennol y Fforwm Mynediad Lleol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024, ystyried dull y Cyngor o gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer hawliau tramwy a materion mynediad dros y tymor o 3 blynedd.

# Atodiadau

## Atodiad 1 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, caiff holl aelodau'r fforwm eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o bob tymor o dair blynedd. Dechreuodd tymor tair blynedd presennol y Fforwm Mynediad Lleol ar 13 Rhagfyr 2021, mae'r tabl isod yn rhestru aelodaeth y Fforwm trwy 2023.

| Enw | Swydd | Buddiannau | Dyddiad Penodi |
|---|---|---|---|
| Mark Hadley | Cadeirydd | Cerdded, Hawliau Tramwy Cyhoeddus i Gerbydau, Twristiaeth, Tirfeddiannwr | 13/12/2021 |
| Karen Burch | Dirprwy Gadeirydd | Ceffylau (Cadeirydd Marchogion Sir Gaerfyrddin ac Aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain) Hanes Lleol | 13/12/2021 |
| Caroline Ferguson | Ysgrifennydd | Ddim yn berthnasol | 13/12/2021 |
| Jason Lawday | Ysgrifennydd Dros Dro'r Fforwm Mynediad Lleol | Ddim yn berthnasol | 28/01/2023 |
| Jillie Gardiner | Aelod | Twristiaeth, Ceffylau, Tirfeddiannwr | 13/12/2021 |
| Dave Gravelle | Aelod | Beicio a Mynediad i Gerbydau Hamdden, twristiaeth | 13/12/2021 |
| David Stacey | Aelod | Beicio, Cerdded | 13/12/2021 |
| Peter Griffiths | Aelod | Beicio, Anabledd/Symudedd | 13/12/2021 |
| Phil Snaith | Aelod | cerdded, beicio, mynediad i'r anabl | 13/12/2021 |
| Sean Brown | Aelod | Cerdded, Beicio Mynydd, beicio modur ar lwybrau | 13/12/2021 |
| Richard Leggett | Aelod | Cerdded (aelod o Gymdeithas y Cerddwyr) | 13/12/2021 |
| Mo Rapley | Aelod | Hawliau Tramwy Cyhoeddus i Gerbydau (Aelod o TRF) | 13/12/2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wyn Owen | Aelod | Cymdeithas y Cerddwyr, Sgowtiaid, Dug Caeredin | 13/12/2021 |
| Tara-Jane Sutcliffe | Aelod | Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cadwraeth, amgylcheddau naturiol a hanesyddol | 13/12/2021 |

Ni etholwyd unrhyw aelodau newydd i'r Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2023

**Atodiad 2 – Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol**

Cofnod presenoldeb yr aelodau ar gyfer 2023.

| Enw | 16/01/23 | 16/03/23 | 05/06/23 | 08/09/23 | 11/12/23 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mark Hadley (Cadeirydd) | Y | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Karen Burch (Dirprwy Gadeirydd) | Y | A | Y | Y | Y | 80% |
| Caroline Ferguson (Ysgrifennydd) | Y | A | A | A | A | 20% |
| Jason Lawday (Ysgrifennydd Dros Dro) | Ddim yn berthnasol | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Jillie Gardiner | Y | Y | N | Y | Y | 80% |
| Dave Gravelle | Y | Y | Y | A | Y | 80% |
| David Stacey | Y | Y | Y | Y | A | 80% |
| Peter Griffiths | Y | Y | Y | A | Y | 80% |
| Phil Snaith | Y | Y | A | Y | Y | 80% |
| Sean Brown | Y | A | Y | Y | Y | 80% |
| Richard Leggett | Y | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Mo Rapley | Y | Y | Y | A | Y | 80% |
| Wyn Owen | Y | Y | A | Y | Y | 80% |
| Tara-Jane Sutcliffe | A | A | N | A | A | 0% |

<u>Allwedd</u>

Y Yn bresennol yn y cyfarfod
A Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb
N Nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac ni dderbyniwyd ymddiheuriadau
Amherthnasol Ddim yn aelod ar y dyddiad hwn

**Atodiad 3 – Manylion yr Awdurdod Penodi**

Enw'r Awdurdod Penodi: Cyngor Sir Caerfyrddin

Ardal a gwmpesir gan y Fforwm Mynediad Lleol: Sir Gaerfyrddin gyfan ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ysgrifennydd: Caroline Ferguson, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad, Uned Hamdden a Mynediad Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin, Parc Coetir y Mynydd Mawr, Heol Hirwaun Olau, y Tymbl, Sir Gaerfyrddin SA14 6HU.

Ffôn: 01554 742216 (est 2216)

E-bost: prow@sirgar.gov.uk

**Atodiad 4 – Map o Ardal y Fforwm Mynediad Lleol**




<u>Allwedd</u>

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn coch = Sir Gaerfyrddin
Ardal wedi'i hamgylchynu mewn melyn = Rhan o'r Sir sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
(nid yw'n cael ei chwmpasu gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin)

**Atodiad 5 – Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol**

1. Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin
2. Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin
3. Canolfannau Hwb Cyngor Sir Caerfyrddin
4. Cynghorau Tref a Chymuned
5. Aelodau Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin
6. Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cyngor Sir Caerfyrddin
7. Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
8. Cymdeithas y Cerddwyr Ceredigion
9. Cymdeithas y Cerddwyr Penfro
10. Cymdeithas y Cerddwyr Llanelli
11. Cymdeithas y Cerddwyr Dinefwr
12. Cymdeithas y Cerddwyr - Caerfyrddin a'r Cylch
13. Cymdeithas y Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan
14. Cymdeithas Ceffylau Prydain
15. Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
16. Treadlightly
17. Trail Riders Fellowship
18. Welsh Trail Riders Association
19. Auto Cycle Union
20. British Motorcyclists Association
21. Sustrans Cymru
22. Cyfoeth Naturiol Cymru
23. Undeb Amaethwyr Cymru
24. Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
25. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
26. Cymdeithas Mannau Agored
27. Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
28. Cymdeithas Gyrru Prydain (British Driving Society)
29. Clwb Teithiau i Feicwyr (Cyclists Touring Club)
30. LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)
31. Canŵ Cymru
32. Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog
33. Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro
34. Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion Fforwm Mynediad Lleol Powys
35. Fforwm Mynediad Lleol Castell-nedd a Phort Talbot
36. Fforwm Mynediad Lleol Abertawe

**Atodiad 6 – Darllen Pellach**

Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael:
Fforwm Mynediad Lleol (llyw.cymru)

Deddf y Llywodraeth

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
The Stationery Office Ltd (2000).
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (legislation.gov.uk)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol ) (Cymru) 2001;
The Stationery Office Limited (2002).
Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 (legislation.gov.uk)

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol (Hydref 2016)

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol - Hydref 2016 (llyw.cymru)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).
Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)